# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd o Ragfyr 2015 am 7.30 pm yn Neuadd Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwyndaf Morgan (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, Arwel Jones, John Lumley, Aneurin Roberts ac Iwan Thomas.

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Gwyn Jones a John Emrys Jones am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Materion Personol

Croesawyd y Cynghorydd Helen Evans a'r Clerc, Denfer Morgan, i'r cyfarfod ac ategwyd dymuniadau blaenorol yr Aelodau i'r ddau ohonynt.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Dachwedd 2015.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Trefniadau Bancio – dywedodd y Clerc ei fod wedi llwyddo trefnu i'r cyfriflenni gael eu hanfon ato ef a bod angen bwrw 'mlaen nawr i newid y llofnodwyr awdurdodedig.

Cysgodfeydd bysus – dywedood y Cynghorydd John Lumley mai bwriad y Cyngor Sir oedd adolygu'r ddarpariaeth drwy'r sir cyn dod ag argymhellion ar gyfer eu cynnal yn y dyfodol.

Parc yr Hŷdd – cyfeiriwyd y sylwadau i'r gwasanaeth priffyrdd a chafwyd gwybod y byddai rhaid i'r gwaith gael ei flaenoriaethu yng nghyd-destun yr adnoddau oedd ar gael.

5 Llwybr Troed Tirbach - Bethlehem

Adroddodd y Clerc ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir a bod y swyddog perthnasol wedi ei hysbysu nad oedd yn gwybod am unrhyw gyngor cymuned oedd wedi gwneud cais am ddargyfeirio llwybr cyhoeddus yn y gorffennol. Y ffi presennol a godwyd gan y Cyngor Sir am wneud Gorchymyn o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 oedd £1750. Roedd y gost o'r gwaith o gau'r hen lwybr a chreu llwybr newydd yn ychwanegol i hwn. Dywedodd hefyd fod yr Adran dan sylw yn cyfeirio'n benodol at berchnogion tir yn gwneud cais am ddargyfeiriad. Roedd hefyd wedi gofyn i Un Llais

Cymru am farn a oedd pwerau gan y Cyngor i wneud cais swyddogol am ddargyfeiriad ac roedd yn disgwyl am ateb.

Nodwyd y gwybodaeth a roddwyd gan y Clerc a **PHENDERFYNWYD** aros am ateb Un Llais Cymru.

6 Mynwent Eglwys Cilcennin

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ateb canlynol a dderbyniwyd oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru parthed cais y Cyngor i brynu darn o'r cae o'i heiddo islaw'r fynwent presennol:

*Mae'r tir y mae gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb ynddo yn rhan o'n clastir, a delir er budd y Dalaith a nid am unrhyw Blwyf arbennig. Rheolir y tir ar ein cyfer gan Cooke & Arkwright a mae'n cael ei rentu ar hyn o bryd. Fel elusen cofrestredig rheoleiddir ni'n llym a mae gennym ddyletwydd i sicrhau'r pris gorau am unrhyw ddarn o dir sy'n cael ei rentu neu ei werthu. Cyflawnir hyn fel arfer drwy gynnig eiddo ar werth ar y farchnad agored. Ar ôl i chi gysylltu â ni ymgynghorais â'n hasiantaethau a gysylltodd â Chyngor Sir Ceredigion wedyn. Nid yw ein hasiantaethau yn argymell gwerthu unrhyw ddarn o'r clastir y tro hwn a gan ei fod yn agos iawn at y pentref maen nhwn ystyried bod ganddo botensial datblygu tymor hir yn y dyfodol efallai.*

*Byddaf yn cadw eich manylion ar fffeil os ystyrir y tir hwn i'w werthu yn y dyfodol. Diolch am eich diddordeb.*

Mynegwyd siom cyffredinol gydag ymateb yr Eglwys. Soniodd y Cynghorydd Iwan Thomas am sgwrs diweddar gafodd gyda'r Ficer ynglŷn â'r posibilrwydd o drafod gyda'r Eglwys cynnig gan y Cyngor i ddod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r fynwent presennol i gydfynd gyda rhyddhau rhywfaint o dir er mwyn ymestyn y fynwent.

**PENDERFYNWYD** gofyn i'r Cynghorydd Thomas drafod y cynnig hwn ymhellach gyda'r Ficer.

7 Society of Local Council Clerks

PENDERFYNWYD Cytuno i ymuno gyda chynghorau Aberaeron a Llansantffraed i ymaelodi â'r gymdeithas uchod.

8 Cynllun Ynni OVO – Coed am Ddim i Bawb

PENDERFYNWYD rhannu'r gwybodaeth gyda'r Cynghorwyr Helen Evans ac Iwan Thomas er mwyn ei rannu gyda chymdeithasau priodol.

9 Ymgynghoriad Trawsnewid Sir Ceredigion – Llyfrgelloedd, Treth y Cyngor a Grantiau

Anogwyd yr Aelodau i gymryd rhan yn yr ymarfer ar-lein.

10 Unrhyw Fater Arall

a) Cytunwyd trafod yn y cyfarfod nesaf y Bil Ddraft ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol.

b) Cytunwyd arddangos rhestr o gyfarfodydd y Cyngor ar hysbysfyrddau Neuaddau Cilennin a Chiliau Aeron.

c) Cyfeiriodd y Cynghorydd Arwel Jones at gais a dderbyniwyd i'r Cyngor gefnogi cais a wneir gan grŵp lleol am gymorth ariannol i wneud astudiaeth dichonolrwydd o'r posibilrwydd o ymestyn y llwybr beicio o Lanerchaeron i Giliau Aeron; a PHENDERFYNWYD cytuno i wneud hynny.

d) Cyfeiriodd y Cynghorydd Dai Evans at yr angen i jetio draens yng Nghilcennin.

e) Cyfeiriodd y Cynghorydd Iwan Thomas at hen stand laeth a oedd wedi ei ddifrodi ger yr Eglwys yng Nghiliau Aeron.

f) Cyfeiriodd y Cynghorydd Helen Evans at y gor-yrru parhaol ar yr A482 ar ochr orllewinol Ciliau Aeron a dywedodd y Cynghorydd John Lumley fod cynllun i ymestyn y cyfyngiad cyflymdra yn ei le ar gyfer ei weithredu yn y flwyddyn newydd.

g) Cytunwyd rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf eitem ar gyfer trafod cynnal swper.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.50 pm

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Iau 7fed o Ionawr 2016